Llawenhawn yn llwyddiant nifer o'r plant yn y cystadlaethau rhedeg trawsgwlad a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar. 'Roedd cannoedd o blant yn cymryd rhan ac yn y ras i fechgyn o dan unarddeg oed y buddugol oedd Jason Davies, Tanyberth. Frances Robinson Glynderi oedd yr ail yn y gystadleuaeth i ferched o dan unarddeg oed.

Bob bore Mawrth cawn gwmni Mr. Mordecai Betera o Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth. Gŵr o Zimbabwe yw ef sy'n ceisio am radd uwch ac mae'n berson hynod o ddiddorol.

Croesawn Paul Harris, Anna Harding, Kim Davies, Eleanor Francis, Frances Robinson, Bethan Thomas a Cathryn ei chwaer. Hyfryd yw eu gweld yn hapus yn ein plith.

Da yw gweld Gwion Lewis yn ôl yn yr ysgol gennym. Bu yn Ysbyty Bronglais am gyfnod byr ond mae'n llawer iawn gwell unwaith eto.

A'r newyddion ar fin mynd i'r wasg clywsom mai Mr. Alun John, prifathro presennol Ysgol Gynradd Iau Penparcau fydd prifathro newydd Ysgol Penrhyncoch ym mis Medi. Llongyfarchwn ef ar ei apwyntiad a dymunwn y gorau iddo.